
# Adroddiad Blynyddol 2022-23

# Cyngor Cymuned Llanddaniel Fab a Llanedwen

## Cyflwyniad




Maint 22,486 cilomedr sgwâr a phoblogaeth o 886 (ONS data October 2022)

Corff cyhoeddus wedi ei ariannu gan arian o dreth y cyngor yw'r Cyngor Cymuned. Mae'r Cyngor Cymuned yn cynrychioli buddiannau trigolion cymuned Llanddaniel Fab a hyrwyddo lles yr ardal leol.
Gwneir y gwaith yma'n bennaf trwy gyflwyno datganiadau i awdurdod unedol yr ardal (Cyngor Sir Ynys Môn), cyrff eraill megis Heddlu Gogledd Cymru, a'r Senedd. Bydd hyn yn cynnwys materion a fydd yn berthnasol i Gynghorydd Cymuned y ward, yr Aelod Senedd a'r AS.

## Cyfrifoldebau ac Eiddo y Cyngor Cymuned

Mae'r Cyngor Cymuned yn delio â materion cymunedol (nid rhai unigol) ac nid yw'n ymyrryd mewn ymrafael rhwng unigolion e.e. cymdogion.
Mae'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am wahanol bethau yn y gymuned. Rydym yn gyfrifol am Fynwent Newydd, a bydd y Cyngor Cymuned yn cymryd cyfrifoldeb am hen fynwent Capel Cana yn ystod y flwyddyn nesaf.
Mae'r Cyngor Cymuned yn rhentu'r Cae Chwarae gan Gyngor Sir Ynys Môn, ac yn gyfrifol am yr holl offer sydd ynddo. Cynhelir archwiliad ROSPA blynyddol.
Mae'r Cyngor yn cynnal 3 llwybr yn y pentref ar ran Cyngor Sir Ynys Môn, gyda'r rhain yn cael eu torri ddwywaith y flwyddyn gan ein contractwyr. Caiff llwybrau eraill eu torri yn ôl y galw hefyd.
Y Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol am y gofeb rhyfel, dau arhosfa bws yng nghanol y pentref ac un arall yn Ffingar, a'r meinciau ym Moel-y-Don.

Cyngor Sir Ynys Môn sy'n gyfrifol am y llecyn gwyrdd yng nghanol y pentref, y llwybrau troed eraill (gan gynnwys yr un trwy Stad Plas Hen i'r ysgol, y mannau parcio ym Moel-y-Don, a'r goleuadau stryd, palmentydd, priffyrdd, cynnal a chadw'r llwybrau cyhoeddus etc.
Yr Eglwys yng Nghymru sy'n gyfrifol am fynwent yr hen eglwys a'r tir o gwmpas yr eglwys, gan gynnwys y porth a'r to arno; eiddo preifat yw'r eglwys ei hun.
Adran Addysg Cyngor Sir Ynys Môn sy'n gyfrifol am gae'r ysgol, a chyfleusterau'r ysgol.
Mae'r Efail yn eiddo a chyfrifoldeb i Drigolion Llanddaniel, corff ar wahân, ac nid yw'n rhan o'r Cyngor Cymuned.
Grŵp ar wahân sy'n trefnu Gŵyl Mabsant yn y pentref.

## Y Cyngor Cymuned

Mae naw sedd ar y Cyngor Cymuned, gydag wyth wedi eu llenwi ar hyn o bryd.

Y Cynghorwyr:
Margaret Clarke (Cadeirydd)
y Cyngh. Dafydd Roberts (Is Gadeirydd)
Dawn Doran-Jones
Liz du Pré
Joanna Robertson
Guto Williams
Robert Sargent
Jane McFarlan

Bydd y Cynghorwyr Sir yn cael gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd y Cyngor Cymuned; mae'r Cyngh. Dafydd Roberts yn aelod o'r Cyngor Cymuned yn ogystal â bod yn Gynghorydd Sir.

Mae'r Cyngor yn cyfarfod ar drydydd nos Lun y mis (dim cyfarfod ym mis Rhagfyr ac Awst).

## Clerc

Mae'r Clerc yn weithiwr cyflog i'r Cyngor Cymuned ac nid yw'r Clerc yn aelod o'r Cyngor. Nid oes gan y Clerc bleidlais na'r gallu i fynegi barn ar waith y Cyngor. Mae'r Clerc yn gyfrifol am wneud gwaith gweinyddol y Cyngor, ac hefyd yn Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Sara Elin Roberts, 01248 543080.
Ebost: cyngor.cymuned.llanddaniel@gmail.com
Gwefan: www.llanddaniel.org

## Diweddariad Cyllidol

Mae'r Cyngor yn derbyn cyllideb flynyddol o £11,865 gan Gyngor Sir Ynys Môn.

Mae'r Cyngor wedi cynnal coffrau iach drwy gydol y flwyddyn ac mae'r Clerc wedi ymgysylltu'n gyson gyda'r cyfrifyddion â'r arolygyddion perthnasol.

Mae copïau electroneg o gyllidebau, Datganiadau Blynyddol ac Adroddiadau'r Archwilydd Mewnol i'w gweld ar wefan y Cyngor.

## Ymgysylltu Cymunedol

Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu gyda thrigolion drwy rannu gwybodaeth o ddiddordeb a pherthnasedd lleol ar dudalen Facebook y cyngor, yn yr Hysbysfwrdd yng nghanol y pentref, a thrwy Papur Menai. Gwefan: www.llanddaniel.org.

Mae Cofnodion ac Adroddiadau Cyllidol y Cyngor wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor Cymuned yn unol â'r gofynion.

Mae'r Cyngor Cymuned yn cadw cysylltiad agos gydag Ysgol Parc y Bont, gan gynnwys cydweithio â nhw ar brosiectau. Mae gan y Cyngor Cymuned gynrychiolydd ar y Llywodraethwyr Ysgol.

# Cyflawniadau dros y Flwyddyn

**Ceisiadau Cynllunio**
Mae'r Cyngor wedi ymateb i 14 o geisiadau cynllunio yn ystod y flwyddyn.

**Pwyllgor Diogelwch Ffyrdd**
Pleser yw cael cynnydd yn y nifer o deuluoedd ifanc a phlant sydd wedi ymgartrefu yn ein pentref a'r dalgylch. Mae'r nifer o gerddwyr a beicwyr yma wedi cynyddu …ond mae pryder mawr ynglŷn â'u diogelwch ar y ffyrdd. Oherwydd hyn, yn 2020 sefydlwyd is-bwyllgor o'r Cyngor Cymuned i ddod o hyd i leoedd lle y gellid gwneud gwelliannau ynglŷn â diogelwch ffyrdd. Rhoddir adborth o'u cyfarfodydd i'r Cyngor llawn lle mae trafodaeth ymhellach a'r awgrymiadau'n cael eu blaenoriaethu. Y prif bryderon yw diffyg palmentydd; gor-yrru; maint y lorïau, tractorau a pheiriannau; cynnydd yn y trafnidiaeth ayyb. Mae aelodau o Adran Priffyrdd Cyngor Môn wedi ymuno a rhai cyfarfodydd ond yn anffodus 'does fawr ddim wedi datblygu hyd yma.

**Pwyllgor Cae Chwarae**
Yn ogystal â chynnal a chadw'r cae chwarae yn y pentref, mae'r Cyngor Cymuned hefyd yn cynnal pwyllgor i drafod datblygu'r ardal ymhellach. Gosododd y Cyngor Cymuned ffens o amgylch y cae chwarae ychydig flynyddoedd yn ôl, yn dilyn ymgysylltu â'r cyhoedd, ac mae ychydig o arian grant yn weddill ar gyfer datblygu. Blaenoriaethau'r Cyngor Cymuned yn y cae chwarae ar hyn o bryd yw delio â'r broblem llifogydd yn un gornel o'r cae, sy'n effeithio ar yr offer i'r plant lleiaf. Mae trafodaethau yn dal i fynd yn eu blaen gyda gwahanol adrannau yn y Cyngor Sir ynghylch y tir sy'n terfynu ar y cae chwarae gyda gwaith yno yn gwaethygu'r broblem. Mae angen datrys y problemau hyn cyn edrych ar ddatblygu pellach.



**Coed y Gof a Phrosiectau Eco**

Mae'r Cyngor Cymuned yn dal i flaenoriaethu byd natur. Rydym wedi cwblhau Adroddiad Adran 6 dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau.

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi bod yn cydweithio gydag Ysgol Parc y Bont a'r Ymddiriedolaeth Natur i ddatblgyu prosiectau a chanolbwyntio ar natur ac ecosystemau yn lleol. Y bwriad yn y flwyddyn sydd i ddod yw i barhau â'r gwaith hwn a chael y gymuned ehangach i gymryd diddordeb.

**Diffibriliwr**

Mae'r Cyngor Cymuned wedi prynu diffibriliwr ar gyfer y pentref ac mae hwn wedi ei leoli ar ochr adeilad Yr Efail. Mae'r Cyngor Cymuned wedi cyfrannu at olau ar y diffibriliwr hefyd. Mae'r diffibriliwr yn cael ei gynnal a'i gadw gan y Cyngor Cymuned ac mae wedi ei gofrestru ar wefan y Gwasanaeth Ambiwlans, The Circuit.

Mae'r Cyngor Cymuned yn trefnu hyfforddiant cymunedol ar gyfer defnyddio'r diffibriliwr yn 2023.




**Bagiau Baw Ci**




Mae'r Cyngor wedi gosod sawl dosbarthwr bagiau baw ci yn y pentref ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu llenwi â bagiau.

Mae'r Cyngor hefyd yn brwydro i annog pobl i godi ar ôl eu cŵn ond mae'n broblem barhaus, yn arbennig yn ystod y gaeaf.



## Blaenoriaethau 2023-24

- Diogelwch Ffyrdd. Gyda'r cyflymder 20mya yn dod i rym yn ystod y flwyddyn nesaf rydym yn awyddus i ddal i weithio ar lwybrau diogel i gerddwyr a beicwyr, a delio â'r broblem goryrru.
- Cae Chwarae. Delio â'r broblem llifogydd yn y gornel bellaf. Unwaith y bydd hynny wedi ei wella bydd modd edrych ar ychwanegu offer ac ehangu'r hyn sydd ar gael yn y Cae Chwarae.
- Mynwent Capel Cana. Bydd y Cyngor Cymuned yn cymryd cyfrifoldeb am Fynwent Capel Cana a bydd yn cael ei throsglwyddo o ofal yr Annibynwyr i ofal y Cyngor Cymuned.
- Coed y Gof. Y bwriad yn y tymor hir yw y bydd y Cyngor Sir yn trosglwyddo cyfrifoldeb am y llecyn coediog hwn i'r Cyngor Cymuned, a bydd modd ei ddefnyddio fel adnodd ar gyfer cefnogi byd natur a bywyd gwyllt yn lleol, a dysgu am ecosystemau.

